Community Housing Cymru

# Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2024-25

## 27 Chwefror 2024

### Cynnwys


Cyflwyniad

Cyhoeddiad allweddol ar gyfer cymdeithasau tai

Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy

Atal digartrefedd a chaledi ariannol

Digartrefedd a chymorth tai

Cymdeithasau tai fel darparwyr gofal cymdeithasol

Cymorth ariannol i aelwydydd

Datgarboneiddio

Diogelwch adeiladau

Ymateb CHC

Y camau nesaf

## Cyflwyniad

Nid oes fawr o newid rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Ddrafft. Fodd bynnag, bu rhai newidiadau cadarnhaol fydd yn effeithio ar y sector tai cymdeithasol a chaiff y rhain eu hamlinellu isod.

Mae'r gyllideb hefyd yn nodi newidiadau gweinyddol tebyg i drosglwyddo cyfrifoldebau rhwng portffolios Gweinidogion a throsglwyddo arian i ac o gronfeydd wrth gefn.

Mae naratif y gyllideb yn nodi'r newidiadau i'r Gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 24/25 yn cynnwys: y £231m ychwanegol mewn adnoddau, £8m mewn cyfalaf a gostyngiad o £8m o gyfalaf Trafodion Ariannol yn dilyn proses Amcangyfrifon Atodol y Deyrnas Unedig, arian a gariwyd ymlaen o Gronfa wrth Gefn Cymru 23/24 a symiau canlyniadol a gafwyd o Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau.

Caiff cyd-destun economaidd y gyllideb hefyd ei esbonio ac mae'r gyllideb yn cydnabod fod chwyddiant yn 4% ar hyn o bryd, wedi gostwng o 10% flwyddyn yn ôl.

Mae'r datganiad ysgrifenedig atodol gan y Llywodraeth ar y gyllideb hefyd yn sôn am ddiweddariad pellach mewn rhagolygon a symiau canlyniadol yn dilyn datganiad gwanwyn Llywodraeth y DU ar 6 Mawrth.

## Penawdau allweddol

Mae Cyllideb Derfynol 2024-25 Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion cyhoeddiadau cyllid newydd y Gweinidog Cyllid. Cynyddodd y gyllideb newid hinsawdd o £2.84bn i £2.87bn o'r gyllideb ddrafft, cyfanswm cynnydd o £24.86m.

Mae'r gyllideb yn dyrannu:

- £370m o Grant Tai Cymdeithasol (£5m ychwanegol wedi ei ddyrannu o'r gyllideb ddrafft)
- £5m ychwanegol ar gyfer llinell cyllideb Digartrefedd ac Atal, y mae'r Grant Cymorth Tai yn rhan ohoni. Rydym yn gofyn am eglurdeb fel fater o frys os caiff hyn ei ddiogelu ar gyfer y Grant Cymorth Tai.
- £14.436m pellach i awdurdodau lleol drwy'r setliad Llywodraeth Leol.

## Cyhoeddiad allweddol ar gyfer cymdeithasau tai

**Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy**

Mae'r Gyllideb Derfynol yn dyrannu £5m ychwanegol ar gyfer Grant Tai Cymdeithasol, gan ddod â'r cyfanswm buddsoddiad cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 24/25 i £370m. Rydym yn falch i weld y buddsoddiad ychwanegol hwn mewn tai cymdeithasol yn parhau i gefnogi'r sector i ddarparu'r cartrefi cymdeithasol sydd eu hangen yng Nghymru. Caiff y cyllid ychwanegol hwn ei ddyrannu yn y ffordd arferol yn unol â'r fformiwla arferol.

Er y croesewir y buddsoddiad ychwanegol hwn, byddwn yn parhau ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol arall i ddatblygu datrysiadau diriaethol i ddatgloi rhwystrau systemig i ddatblygiad. Mae'r gyllideb yn dyrannu £20m arall i gynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai marchnad.

Mae'r Gyllideb hefyd yn ailosod y ffocws ar ddefnyddio opsiynau tai presennol drwy barhau buddsoddiad yn y rhaglen Cartrefi Gwag am flwyddyn arall.

## Atal digartrefedd a chaledi ariannol

### Digartrefedd a chymorth tai

Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhan o linell cyllideb Cymorth ac Atal Digartrefedd. Cynyddwyd llinell y gyllideb gan £5m. Adeg ysgrifennu hyn, nid ydym wedi cael cadarnhad ysgrifenedig y caiff hyn ei ddyrannu i'r Grant Cymorth Tai. Rydym yn gofyn am eglurhad ar frys gan swyddogion a byddwn mewn cysylltiad cyn gynted ag y gwyddom fwy. Fel blaenoriaeth, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno'r achos dros setliad cyllid aml-flwyddyn cynaliadwy ar gyfer y Grant Cymorth Tai sy'n diogelu buddsoddiad yn y gwasanaethau hanfodol hyn a staff rheng-flaen.

Bu cynnydd o £2m yn y Grant Atal Digartrefedd, sy'n cyllido rhai prosiectau cenedlaethol. Gostyngwyd hyn o gynnydd blaenorol o £5m yn y dyraniadau dangosol, ac mae'n golygu fod cyllideb y Grant Atal Digartrefedd yn awr yn £48m.

Mae'r llinell yn y gyllideb ar gyfer y Grant Cymorth Tai a'r Grant Atal Digartrefedd felly yn gyfanswm o £219,910m.

### Cymdeithasau tai fel darparwyr gofal cymdeithasol

Mae'r gyllideb ddrafft yn amlinellu cynnydd o 3.1% i setliad craidd llywodraeth leol, sy'n cyllido gofal cymdeithasol. Mae'r gyllideb derfynol yn dyrannu £14m pellach i'r gronfa hon.

Mae'r gyllideb derfynol yn diwygio gostyngiad a wnaed i'r grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn y gyllideb ddrafft ac yn dyrannu £10.564m i "wella gofal cymdeithasol drwy recriwtio a chadw gweithlu ansawdd uchel a phroffesiynol".

Cafodd y Gronfa Gofal Integredig (a gaiff nawr ei ddosbarthu drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol a'r Gronfa Tai â Gofal) ei chadw ar lefel arian gwastad o £60.5m.

Deallwn fod cyllideb y Grant Addasiadau Ffisegol yn parhau tua'i lefel bresennol ac yr anfonir llythyrau dangosol at gymdeithasau tai sy'n derbyn Grant Addasiadau Ffisegol yn y dyfodol agos. Byddwn yn parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i drin pwysau cyfredol ar gyllidebau addasu ar draws y sector.

### Cymorth ariannol i aelwydydd

Nid oes newid yn llawer o'r ymrwymiadau o'r gyllideb ddrafft wrth i Lywodraeth Cymru ceisio cynnal cymorth ar gyfer y rhai y mae'r argyfwng costau byw wedi taro arnynt:

- Cadw'r Gronfa Cymorth ar Ddisgresiwn ar £38.5m
- Diogelu cymorth i wasanaethau cynghori a'r gyllideb ar gyfer y Gronfa Cynghori Unigol
- Cadw £35m ar gyfer y Rhaglen Tlodi Tanwydd
- Cadw'r £25m ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

Mae'r gyllideb hefyd yn adfer £5m o gyllid i'r grant Plant a Chymunedau sy'n anelu i gefnogi plant difreintiedig a bregus.

Gan adeiladu ar ein hadroddiad [Methu Dod â Deupen Llinyn Ynghyd], byddwn yn parhau i ddangos effaith caledi ariannol ar denantiaid a chymunedau drwy gynnal arolwg dilynol yn y gwanwyn. Byddwn yn parhau ein gwaith gyda chwaer ffederasiynau i ystyried argymhellion strategol i Lywodraeth y DU yn ymwneud â diwygio budd-daliadau. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n haelodau i adolygu effeithlonrwydd a mynediad ar draws awdurdodau lleoli i fudd-daliadau Cymreig yn cynnwys y Gronfa Cymorth ar Ddisgresiwn.

## Diogelwch adeiladau

Nid yw'r gyllideb derfynol yn gwneud unrhyw newidiadau i ddiogelwch adeiladau o'r gyllideb ddrafft a wnaeth ailbroffilio'r gronfa diogelwch adeiladau drwy ryddhau £37m o gyfalaf yn 2024-25 ar gyfer cyllid refeniw.

Mae'r cyfanswm buddsoddiad mewn Diogelwch Adeiladau yn parhau yn £165m.

## Datgarboneiddio

Ni chafodd unrhyw newidiadau eu gwneud i'r £70m a neilltuwyd yn flaenorol ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ar gyfer 2024/25. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo £18m i waith SATC 2023 ar gyfer 2024/25. Rydym yn trafod dyrannu'r cyllid hwn gyda nhw ar hyn o bryd.

Cynyddodd cyfanswm cyllideb Datgarboneiddio ac Ansawdd Preswyl gan £4m o gymharu â'r gyllideb ddrafft i gyfanswm o £96m ar gyfer 2024/25. Mae hyn yn adlewyrchu buddsoddiad ychwanegol mewn cyfalaf trafodion ariannol, drwy Fanc Datblygu Cymru, i gefnogi perchnogion cartrefi i ôl-osod eu cartrefi drwy e.e. pympiau gwres a phaneli solar.

Mae'r sector tai cymdeithasol yn dal i ddisgwyl penderfyniad ar y dull hirdymor ar gyfer cyllido SATC 2023. Rydym angen cynllun wedi'i gostio'n llawn ac amserlen y gellir ei chyflawni a strategaeth sy'n caniatáu cadw buddsoddiad yng Nghymru i gefnogi'r economi lleol.

# Ymateb CHC

Cyhoeddodd CHC y datganiad i'r cyfryngau dilynol gan Stuart Ropke, Prif Weithredwr:

*Ar y cynnydd i'r Grant Tai Cymdeithasol:*

"Rydym yn croesawu rhai o'r newidiadau ar gyfer tai cymdeithasol yng nghyllideb derfynol 2024/25.

"Buom yn glir fod adeiladu cartrefi fforddiadwy yn rhan allweddol o osod llwybr cynaliadwy allan o'r argyfwng tai yng Nghymru. Ni fu erioed yn anos gwneud hynny, gyda chwyddiant mewn costau yn cyfyngu effaith buddsoddiad y llywodraeth mewn blynyddoedd diweddar. Felly rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu cyllid y Grant Tai Cymdeithasol gan £5m o'r gyllideb ddrafft i alluogi hyn i ddigwydd. Ar

hyn o bryd mae cymdeithasau tai Cymru wrthi'n adeiladu 70% o gartrefi cymunedol a bydd yr hwb hwn mewn cyllid yn eu cefnogi i barhau hyn.

"Ynghyd â chyllid mae angen i ni edrych ar frys ar y systemau a'r strwythurau y mae'r holl adeiladwyr tai yn dibynnu arnynt sy'n dal i oedi pobl a chymunedau rhag cael cartrefi newydd. Roeddem yn falch i weld bod Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru wedi lansio ymchwiliad yn ddiweddar i'r pwnc pwysig hwn.

"Mae potensial enfawr ar gyfer cymdeithasau tai ac eraill i nid yn unig adeiladu mwy o gartrefi, ond i adeiladu'r cartrefi cywir yn y mannau cywir ar gyfer pobl Cymru nawr ac am flynyddoedd lawer i ddod. Mae'r cyllid ychwanegol heddiw yn gam a groesewir yn fawr yn y cyfeiriad cywir, ond mae angen gwneud mwy."

*Am y Grant Cymorth Tai:*

"Mae'r gyllideb derfynol yn gweld £5m arall yn cael ei ddyrannu i'r llinell Cefnogi ac Atal Digartrefedd. Rydym yn croesawu'r cynnydd hwn. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau y caiff cymaint o gyllid ychwanegol ag sydd modd ei ddyrannu i'r Grant Cymorth Tai.

"Roeddem yn glir cyn y cyhoeddiad hwn, os na fyddem yn gweld setliad cyllido gwell ar gyfer y Grant Cymorth Tai, na fyddai cyllid digonol ar gyfer talu'n deg i weithwyr rheng-flaen a'i bod yn debyg y byddem yn colli gwasanaethau ar adeg pan na fu erioed fwy o'u hangen.

"Mae gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai angen setliad cyllid aml-flwyddyn cynaliadwy sy'n sicrhau y gall y gwasanaethau hanfodol hyn a'u staff ymroddedig barhau i gyflenwi eu gwaith, sy'n newid bywydau."

## Y camau nesaf

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynyddu buddsoddiad cyfalaf mewn darpariaethau tai mewn cyfnod economaidd anodd yn cyfleu neges gryf a chlir fod Llywodraeth Cymru yn dymuno cefnogi'r sector tai cymdeithasol i ddarparu cartrefi cynnes, diogel a fforddiadwy dros dymor hwn y Senedd.

Rydym yn falch i weld y cynnydd i linell cyllideb Cymorth ac Atal Digartrefedd. Rydym yn ceisio cael cadarnhad y caiff hyn ei ddyrannu i'r Grant Cymorth Tai. Fel blaenoriaeth, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno'r achos dros setliad cyllido aml-flwyddyn ar gyfer y Grant Cymorth Tai sy'n diogelu buddsoddiad yn y gwasanaethau hanfodol hyn a'r staff rheng-flaen.

Byddwn yn parhau i amlygu pwysigrwydd cyllido adeiladu tai cymdeithasol a gwasanaethau cymorth tai yn ein trafodaethau gyda swyddogion a Gweinidogion cyn y ddadl ar gyllideb derfynol Llywodraeth Cymru a Datganiad Gwanwyn Llywodraeth y DU.

*I drafod y papur gwybodaeth hwn, cysylltwch â Rhea Stevens neu Elly Lock, Penaethiaid Polisi a Materion Allanol: Rhea-Stevens@chcymru.org.uk a Elly-lock@chcymru.org.uk*